# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 27.06.13

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Linda W. Jones (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr**:** Dyfed Edwards, Trevor Edwards, Jean Forsyth, Sian Gwenllian, Peredur Jenkins, Eric M. Jones, Angela Russell, R.H. Wyn Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Dilys Phillips (Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol), Geraint Owen (Uwch Reolwr Adnoddau Dynol) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Alwyn Gruffydd, Liz Saville Roberts, Dyfrig Siencyn

Gwaeledd
Anfonwyd cofion at y Cynghorydd Alwyn Gruffydd yn dilyn ei lawdriniaeth yr wythnos hon.

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ailethol y Cynghorydd Linda W. Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor am 2013/14.**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ailethol y Cynghorydd Alwyn Gruffydd yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am 2013/14.**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Prif Weithredwr fuddiant personol ym Mholisi Tâl y Prif Weithredwr gan ei fod yn effeithio arno.

'Roedd y swyddog o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y mater.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2013 fel rhai cywir.

Mater yn Codi – Polisi Tâl y Prif Weithredwr

Nododd aelod y cyfeiriwyd yn y cyfarfod diwethaf at yr angen i adolygu Polisi Tâl y Prif Weithredwr a gofynnodd beth oedd y sefyllfa ddiweddaraf parthed cynnal cyfarfod o'r pwyllgor hwn i'w ystyried.

Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol bod Llywodraeth Cymru yn ystyried taliadau Prif Weithredwyr ar hyn o bryd sy'n

cael effaith ar hyn ac awgrymodd y dylid trafod y mater ar yr amser addas, Cytunodd yr aelodau â hynny.

## 5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolion penodol a bod gan yr unigolion hynny hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig ac yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus o'i ddatgelu.**

## 6. RHESTR FER AR GYFER PENODI CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL

Adroddodd yr Uwch Reolwr Adnoddau Dynol y derbyniwyd tri cais am y swydd ond yn ddiweddarach fe dynnodd un ymgeisydd ei gais yn ôl oherwydd nad oedd yn cydymffurfio â gofynion ieithyddol y swydd.

Cafwyd amlinelliad o'r ddau gais arall ac ystyriodd yr aelodau addasrwydd yr ymgeiswyr hyn ar gyfer y swydd.

**PENDERFYNWYD**
**a) Rhoddi un ymgeisydd ar y rhestr fer.**
(Gadawodd y Cynghorydd Linda W. Jones y cyfarfod ar y pwynt hwn. Gan nad oedd yr Is-gadeirydd yn bresennol, etholwyd y Cynghorydd Peredur Jenkins yn Gadeirydd am weddill y cyfarfod.)
**b) Nodi y cytunwyd i beidio a rhoddi'r ail ymgeisydd ar y rhestr fer oherwydd nad oedd aelodau'n gweld digon o gyswllt rhwng hanes gyrfaol, profiad a chymwyseddau ymddangosiadol yr ymgeisydd a'r swydd dan sylw.**
**c) Cynnal Canolfan Asesu ar gyfer yr un ymgeisydd sydd ar y rhestr fer gan ganolbwyntio ar yr elfennau strategol a chorfforaethol o'r swydd yn unig a fyddai'n lleihau'r gost i'r Cyngor.**

Ar derfyn y cyfarfod ystyriwyd y cwestiynau posibl i'w gofyn yn y cyfweliad, pryd y cytunwyd y byddai pedwar o'r naw cwestiwn yn ddigonol.

Dechreuodd y cyfarfod am 3:00p.m. a daeth i ben am 4.00pm